OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2013 Rhif 2297 (Cy. 223)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Pen-y-clip, Conwy) (Gwahardd Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2013

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *9 Medi 2013* |
| *Yn dod i rym* | *17 Medi 2013* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd yr A55 (Caer–Bangor) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall**(2)**, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Medi 2013. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Twnnel Pen-y-clip, Conwy) (Gwahardd Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2013.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

(i) ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw cyfnod o ddyddiadau cau fel y'i pennir yn Atodlen 3, sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 17 Medi 2013 ac yn dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

(ii) ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the lengths of the trunk road")* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedlo, na pheri i unrhyw feic pedlo gael ei reidio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 5, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

## Cymhwyso

**5.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad y cyfeirir ato yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 9 Medi 2013

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**YR ATODLENNI**

**ATODLEN 1**

**<u>Gwahardd beicwyr dros dro</u>**

i) Y darn hwnnw o gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain sy'n ymestyn o drwyniad yr ynys hollti am Gyffordd 14, i'r dwyrain o amgylch Pentir Pen-y-clip i'r groesfan ag arwyddion i gerddwyr sy'n agos at borth dwyreiniol Twnnel Pen-y-clip.

ii) Y darn hwnnw o'r droetffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y drosbont i gerddwyr i'r dwyrain o

Gyffordd 15, i'r dwyrain hyd at y groesfan ag arwyddion i gerddwyr sy'n agos at borth dwyreiniol Twnnel Pen-y-clip.

## ATODLEN 2

## Gwahardd cerddwyr dros dro

Y darn hwnnw o'r droetffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt y drosbont i gerddwyr i'r dwyrain o Gyffordd 15, i'r dwyrain hyd at y groesfan ag arwyddion i gerddwyr sy'n agos at borth dwyreiniol Twnnel Pen-y-clip.

## ATODLEN 3

00:01 17 Medi 2013 – 00:01 20 Medi 2013
00:01 1 Rhagfyr 2013 – 00:01 13 Rhagfyr 2013